OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 316 (Cy. 81)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Atal Dros Dro: Gofal a Chymorth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2021

| | | |
|---|---|---|
| *Gwnaed* | - - - - | *15 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym* | - - | *22 Mawrth 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 88(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod yr amodau a bennir yn adran 88(9) o'r Ddeddf honno wedi eu bodloni mewn perthynas â'r darpariaethau a atelir dros dro gan y Rheoliadau hyn.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Atal Dros Dro: Gofal a Chymorth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 22 Mawrth 2021.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 2020" yw Deddf y Coronafeirws 2020.

**Atal dros dro addasiadau o dan Ddeddf 2020 mewn perthynas â dyletswyddau penodol awdurdodau lleol**

**2.** Mae gweithrediad y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2020 wedi ei atal dros dro—

(a) Rhan 2 o Atodlen 12 (pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol yng Nghymru);

(b) adran 15 (gofal a chymorth gan awdurdodau lleol), i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 2 o Atodlen 12.

(**1**) 2020 p. 7 ("Deddf 2020"). Mae'r pwerau a roddir gan adran 88(1) o Ddeddf 2020 yn arferadwy o ran Cymry gan Weinidogion Cymru; *gweler* adran 88(7) a (9) am y diffiniad o "relevant national authority". *Gweler* adran 88(6) o Ddeddf 2020 am ystyr "provisions".

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

15 Mawrth 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn atal dros dro ddarpariaethau penodol yn Neddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020") sy'n addasu dyletswyddau penodol awdurdodau lleol mewn perthynas â gofal cymdeithasol i oedolion o dan Rannau 3 a 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Rheoliad 2 yn darparu ar gyfer atal dros dro weithrediad Rhan 2 o Atodlen 12 i Ddeddf 2020 (pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol yng Nghymru) ac adran 15 o Ddeddf 2020 (gofal a chymorth gan awdurdodau lleol), i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 2 o Atodlen 12.

Mae atal dros dro weithrediad y darpariaethau hyn yn golygu nad ydynt yn cael effaith yng Nghymru mwyach ond bod modd eu hadfer o dan adran 88(3) o Ddeddf 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.